# Bwrdd Pensiwn

Cronfa Bensiwn Gwynedd Ionawr 2023



## Trosolwg

Mae trefniadau llywodraethu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf ac mae cyfle unigryw i aelodau a chyflogwyr i gymryd rhan yn y gwaith o reoli Cronfa Bensiwn Gwynedd i sicrhau llywodraethu a gweinyddu effeithiol ac effeithlon y cynllun.

Yn unol â Rheoliadau Llywodraethu newydd y CPLlL 2015 mae Bwrdd Pensiwn wedi cael ei gyflwyno o 1 Ebrill 2015 i sicrhau bod y CPLlL yn cael ei reoli'n dda ac yn cael ei chynrychioli ar lefel leol. **Rydym nawr yn chwilio am aelodau newydd ar gyfer y Bwrdd** (Mae croeso i aelodau cyfredol y Bwrdd cyflwyno cais, gobeithir ail-benodi rhai aelodau er mwyn sicrhau parhad o'u harbenigedd).

**Mae Cyngor Gwynedd yn chwilio am fynegiant o ddiddordeb gan aelodau'r cynllun a chynrychiolwyr y Cyflogwyr i eistedd ar y Bwrdd Pensiwn. Mae aelod o'r cynllun naill ai'n aelod actif, aelod gohiriedig neu rywun sy'n derbyn pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd.**

**Mae'r Bwrdd wedi cael ei ffurfio o 3 chynrychiolydd sy'n aelodau a 3 cynrychiolwyr cyflogwyr, a disgwylir i'r Bwrdd cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn.**

Darllenwch ymlaen i ddarganfod mwy……………………

## Beth yw rôl y bwrdd?

Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn gyfrifol am gynorthwyo Cyngor Gwynedd, sef Rheolwyr y Cynllun i sicrhau cydymffurfiad â:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
- Unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddiad y Cynllun;
- Gofynion a osodir gan y Rheolydd Pensiynau mewn perthynas â'r Cynllun;
- Sicrhau llywodraethu a gweinyddu effeithiol y Cynllun.

Mae'r Bwrdd Pensiwn yn gorff goruchwylio ac nid yw'n gwneud penderfyniadau ac nid yw'n cymryd lle'r strwythur llywodraethu sy'n bodoli eisoes yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd mewn perthynas â gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## Proses Penodi

Bydd ceisiadau yn destun proses ddethol gan y panel penodi; Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid), Mr Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid) a Mr Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), gyda chymorth Mr Dafydd Edwards (Cyfarwyddwr y Gronfa Bensiwn).

Mae gan y Panel Penodi disgresiwn llwyr i wrthod unrhyw enwebiad neu gais lle maent yn ystyried bod yr unigolyn ddim yn cwrdd â'r meini prawf cymhwyster a / neu ddethol. Dylai'r ddogfen Rôl a Chyfrifoldebau'r Aelod a Manyldeb Person cael eu cyfeirio atynt wrth gwblhau'r ffurflen gais gan fod y gallu i gwrdd â'r gofynion a amlinellir yn y dogfennau hyn yn ffurfio rhan o'r meini prawf dethol.

## Sut i wneud cais?

Os ydych am wneud cais, yna mae'n rhaid i ffurflen gais wedi'i chwblhau cael ei gyflwyno i Mr Dafydd Edwards (Cyfarwyddwr y Gronfa Bensiwn) erbyn **12.00 pm** ar **28 Chwefror 2023.** Mae ffurflenni cais a fwy o wybodaeth ar gael i'w lawr lwytho o ran 'Newyddion Diweddaraf' ar dudalen flaen gwefan y gronfa **www.cronfabensiwngwynedd.cymru** neu drwy gysylltu â'r Gwasanaeth Bensiynau ar **01286 679643** neu **meirionjones2@gwynedd.llyw.cymru**.

Gall y ffurflen wedi ei chwblhau cael ei e-bostio i **dafyddle@gwynedd.llyw.cymru** neu ei ddychwelyd i'r cyfeiriad canlynol: Mr Dafydd Edwards, Cyfarwyddwr y Gronfa Bensiwn, Swyddfeydd y Cyngor, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.

## Gwybodaeth Allweddol y Gronfa

Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yw'r cynllun pensiwn Buddion Diffiniedig galwedigaethol mwyaf yng Nghymru a Lloegr. Yn gyfan gwbl, mae 89 o Gronfeydd gyda thua 9,500 o gyflogwyr yn cymryd rhan yn y CPLlL. Mae pob Cronfa yn darparu gweinyddiaeth y CPLlL yn rhanbarthol ar gyfer y cyflogwyr sy'n cymryd rhan.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn un o'r 89 Cronfeydd yng Nghymru a Lloegr sydd yn gweinyddu'r CPLlL. Yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22 gwerth Cronfa Bensiwn Gwynedd oedd £2.8 biliwn, gyda 45 o gyflogwyr a chyfanswm aelodaeth o dros 50,000 o aelodau.

Gweinyddir y gronfa gan Gyngor Gwynedd (yr awdurdod gweinyddol) a cyn gwneud cais, mae'n cynghorir bod ymgeiswyr yn ymgyfarwyddo â dogfennaeth y Gronfa megis Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfiad; Rôl a Chyfrifoldebau aelodau'r Bwrdd Pensiynau a'r Adroddiad a chyfrifon blynyddol.

Mae'r holl wybodaeth uchod ar gael ar wefan y Gronfa: **www.cronfabensiwngwynedd.cymru**